Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Parc Cathays / Cathays Park
Caerdydd / Cardiff, CF10 3NQ

Prif Swyddogion Cyllid,
Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru

19 Chwefror 2026

Annwyl Gyfaill,

# Ffurflen gofynion y gyllideb (BR1) ar gyfer awdurdodau bilio, 2026-27

Mae'r llythyr hwn yn cyfrif fel hysbysiad o dan adran 64(1) o
Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (Deddfwriaeth DU) ("Deddf 1992").

Ar 18 Chwefror 2026, byddwn yn anfon e-bost at ein swyddog cyswllt yn eich awdurdod, yn cynnwys dolen at daenlen a chanllawiau ynghylch sut i lenwi'r ffurflen. Dylai'r daenlen gael ei llenwi a'i hargraffu ac yna **fe ddylech chi ei hardystio**.

Ar ôl ardystio dylech anfon y canlynol atom:

- Copi electronig o'r daenlen ar gyfer prosesu data.
- Copi wedi'i lofnodi o'r daenlen (yn ddelfrydol fel PDF) neu drwy'r post.

## Gwybodaeth am ofynion y gyllideb

Dylai pob awdurdod ddefnyddio'r daenlen i ddarparu'r wybodaeth ofynnol dan adran 64 o Ddeddf 1992, fel y'i diwygiwyd, sef:

- gofynion y gyllideb ar gyfer 2026-27 (adran 64(1));
- swm cyfanredol y praeseptau a roddwyd iddo gan gynghorau cymuned, neu a ddisgwyliwyd ganddo mewn perthynas â'r cynghorau cymuned (adran 64(2)).

Tynnir eich sylw at y nodyn ychwanegol i linell 1, fel a ganlyn:

'Wrth gyfrifo gofynion y gyllideb dylech roi ffigur net am yr holl grantiau gwariant, penodol ac arbennig, gan gynnwys y Grant Cytundeb Canlyniadau (y Grant Cytundeb Gwella gynt) heb ei neilltuo ac unrhyw symiau o'r Grant Cynnal Refeniw mewn perthynas â blynyddoedd cynharach o ganlyniad i adroddiad diwygiedig.'

Mae adran 64(3) yn ei gwneud yn ofynnol darparu'r wybodaeth hon cyn pen saith diwrnod yn **dechrau ar y diwrnod y cyfrifwyd gofynion y gyllideb**. Os bydd awdurdod wedi cyfrifo gofynion y gyllideb ar gyfer 2026-27 cyn derbyn y llythyr hwn, bydd angen iddo lenwi'r ffurflen hon a'i dychwelyd i Lywodraeth Cymru ar unwaith.

Y dyddiad hwyraf y gall cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol gyfrifo gofynion y gyllideb ar gyfer 2026-27 yw **11 Mawrth 2026** (drwy rinwedd adran 32(10) Deddf 1992). Felly rhaid llenwi'r ffurflen BR1 a'i dychwelyd i Lywodraeth Cymru **heb fod yn hwyrach na 12 Mawrth 2026**.

### Cyfrifo fersiwn newydd o ofynion y gyllideb

Os bydd awdurdod yn cyfrifo fersiwn newydd o ofynion y gyllideb, rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru o fewn saith diwrnod (adran 64 (3)). Mewn sefyllfa o'r fath byddai'n rhaid llenwi, ardystio a dychwelyd ffurflen BR1 newydd i Lywodraeth Cymru o fewn y cyfnod hwnnw.

**Cais am ragor o wybodaeth**

Mae'r llythyr hwn hefyd yn cyfrif fel hysbysiad dan adrannau 64(4) a 68 o Ddeddf 1992 ac adran 230 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i ddarparu rhagor o wybodaeth. Yr wybodaeth bellach sy'n ofynnol yw'r eitemau sy'n cael eu disgrifio yn llinellau 2 i 23 o'r ffurflen BR1 ac, yn ddarostyngedig i'r hyn sy'n cael ei ddweud yn eitem 1.2, fe ddylid ei darparu ar yr un pryd â'r wybodaeth am ofynion y gyllideb neu'r fersiwn newydd o ofynion y gyllideb, yn ôl y digwydd.

**Symiau'r dreth gyngor a gyfrifwyd dros saith diwrnod ar ôl cyfrifo gofynion y gyllideb**

Pan fo awdurdod yn bwriadu cyfrifo symiau'r dreth gyngor dros saith diwrnod ar ôl iddo gyfrifo gofynion y gyllideb, bydd angen iddo wneud y canlynol:

- cwblhau llinellau 15 a 17 o ffurflen BR1 a sicrhau fod Llywodraeth Cymru'n derbyn y ffurflen a'r daenlen wedi'u hardystio o fewn y cyfnod a nodwyd yn adran 64(3) o Ddeddf 1992;
- cwblhau'r llinellau sydd ar ôl o ffurflen BR1 ar ôl cyfrifo symiau'r dreth gyngor a sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n derbyn y ffurflen a'r daenlen wedi'u hardystio **cyn gynted â phosib**.

**Camgymeriadau a chywiriadau**

Os bydd awdurdod yn gweld bod camgymeriad neu gamgymeriadau yn yr wybodaeth a ddarparwyd ar y ffurflen BR1, dylai anfon ffurflen newydd wedi'i hardystio (ar bapur neu yn ddelfrydol fel PDF) a thaenlen ddiwygiedig i Lywodraeth Cymru cyn gynted â phosib.

Os bydd awdurdod yn cyflwyno ffurflen newydd yn sgil cyfrifiad gwahanol neu gywiriadau, rhaid iddo ddweud yn glir ei fod yn disodli unrhyw ffurflen arall flaenorol.

**Manylion Cyswllt**

Anfonwch yr holl ohebiaeth, gan gynnwys hysbysiadau am fersiynau newydd o’r cyfrifon (gweler eitem 2) ac ymholiadau yn y lle cyntaf at: YCLLL.Trosglwyddo@llyw.cymru

Ffôn: Jack Tennant ar 03000 259221 neu Frank Kelly ar 03000 255673.

Post: Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol,
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ

Yn olaf, gwerthfawrogid pe bai modd i chi anfon copi o'r llythyr hwn ymlaen at Brif Weithredwr eich Cyngor.

Diolch ichi am eich cydweithrediad.

Yn gywir,

Anthony Newby
Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol / Local Government Finance Statistics,
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi / Knowledge and Analytical Services,
Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol / Finance and Corporate Services,
Llywodraeth Cymru / Welsh Government